

## Craidd

### Sbardun 1 – Tân mewn tŷ

Mae Heddlu De Cymru yn dweud bod pedwar o bobl wedi cael eu hachub o dân mewn tŷ ym mhentref Glandŵr.

Cafodd y teulu eu hachub o'r digwyddiad yn Heol-y-Parc. Roedd dyn 43 oed, menyw 40 oed, bachgen 13 oed a merch 11 oed yn y tŷ ar y pryd.

Galwodd y cymdogion am help amser cinio dydd Sadwrn ac roedd y ffenestri yn ddu ac yn boeth pan gyrhaeddodd yr heddlu am 1.15pm.

Daeth injans tân o Abertawe a Phen-y-bont i'r digwyddiad. Cymerodd hi dros awr i ddiffodd y tân. Aeth y dynion tân i mewn i'r tŷ ac achub y teulu. Maen nhw'n meddwl bod y tân wedi dechrau yn y gegin.

Mae'r teulu yn yr ysbyty ond does neb mewn cyflwr difrifol. Dydy'r heddlu ddim yn meddwl bod y tân yn un amheus.

#### Achosion tanau mewn ceginau



## Craidd

### Sbardun 2 – Tân ar y Comin

Mae'r darn hwn yn dod o *Tân ar y Comin*, nofel gan T. Llew Jones. Ynddo, mae Tim Boswel, sipsi pedair ar ddeg oed, yn llosgi carafán a chorff ei dad-cu ar ôl i hwnnw farw ynddi. Roedd sipsiwn yn arfer gwneud hyn fel bod ysbryd y meirw'n mynd i'r nefoedd.

---

Tynnodd y lamp oddi ar y bachyn yn y to. Trodd y pabwyr i lawr i'r gwaelod, nes oedd y fflam yn ddim ond rhimyn tenau, glas. Trodd sgrîw'r caead bach ar yr olew. Wedi cael hwnnw'n rhydd, tywalltodd yr olew drewllyd o'r lamp ar draws gwely ei dad-cu ac ar lawr y garafán. Tynnodd y bocs matsys o'i boced. Gweddïodd fod un o'r rheini'n mynd i danio.

Yn rhyfedd iawn – fe daniodd y fatsien gyntaf a drawodd ar ymyl y bocs.

Gosododd y fflam fechan wrth ddillad gwely'r hen wŷr, lle roedd e wedi arllwys yr olew, ac ar unwaith gwelodd fflam newydd yn neidio i fyny. Gwelodd ddarn o hen bapur dyddiol yn y gornel o dan y bwrdd bach, a rhoddodd fflam fechan y fatsien wrth hwnnw hefyd. Fflamiodd y papur ar unwaith. Ond erbyn hynny roedd y dillad gwely'n fflamio hefyd ac roedd arogl drwg y flanced yn llosgi yn llond ei ffroenau.

Aeth allan o'r garafán. Gadawodd y drws ar agor y tro hwn er mwyn i wynt y nos allu mynd trwyddo i chwythu'r tân.

Gadawodd y comin wedyn, a cherdded ar hyd y ffordd fawr nes cyrraedd y bont. Arhosodd ar y bont gan anadlu'n gyflym, a chrio'n ddistaw yr un pryd.

Arhosodd yno'n hir gan gadw llygad ar y darn comin. A oedd y tân wedi cael gafael? Neu a oedd e wedi diffodd?

Yna gwelodd dafod o dân yn neidio i'r awyr! Roedd y to wedi llosgi drwyddo! Cyn pen winc roedd y comin yn olau i gyd gan y fflamau mawr a neidiai i'r awyr. O, roedd yr hen garafán yn llosgi'n dda! Yn well na charafán Amos Lovell. Ond wedyn, roedd ei dad-cu yn llawer gwell dyn nag Amos Lovell.

Ac yn awr nid oedd ei dad-cu yn swp o glai oer yn y garafán – na – roedd e wedi mynd – gyda'r fflamau mawr a'r mwg . . . i fyny . . . i fyny i'r Nefoedd! I'r Nefoedd i gwrdd â'i hen gyfeillion – Sol Burton, Amos Lovell, Abram Wood, Gideon Lee a'r lleill. . .

. . . Cododd cwmwl sydyn o wreichion a thân o'r garafán; ac yna dechreuodd y tân fynd i lawr yn araf.


Trodd Tim oddi wrth y bont a cherddodd ymaith. Yr oedd e wedi ffarwelio am byth â'i dad-cu a'r bywyd roedd y ddau wedi'i dreulio yn yr hen garafán. Aeth i lawr y lôn at y ffermdy gwag.

*Tân ar y Comin*, T. Llew Jones, Gwasg Gomer, Llandysul, 1975. t.27-29.

## Tân ar y Comin

Mae *Tân ar y Comin* (1975) yn un o nofelau mwyaf poblogaidd T. Llew Jones. Enillodd yr awdur wobr Tir na n-Og amdani. Yn 1993, cafodd ffilm sy'n seiliedig ar y gyfrol ei darlledu ar S4C. Hefyd, cafodd fersiwn Saesneg o'r ffilm ei darlledu, sef *A Christmas Reunion*.

## T. Llew Jones



Bu T. Llew Jones (1915 – 2009) yn brifathro yn Ysgol Coed-y-bryn, Ceredigion. Enillodd Gadair Eisteddfod Genedlaethol Glynebwy yn 1958. Ysgrifennodd nifer o lyfrau i blant, gan gynnwys tair nofel am Twm Siôn Cati, *Y Ffordd Beryglus* (1963), *Ymysg Lladron* (1965) a *Dial o'r Diwedd* (1968).

Roedd T. Llew Jones yn chwarae gwyddbwyll yn dda iawn a bu'n cynrychioli Cymru yn y Gêmau Olympaidd Gwyddbwyll gyda Iolo, ei fab. Mae diwrnod cenedlaethol i gofio T. Llew Jones yn cael ei gynnal bob blwyddyn ar 11 Hydref (diwrnod pen-blwydd y llenor). Bydd plant yn darllen ei lyfrau, yn creu gwaith celf ac yn gwisgo fel rhai o'u hoff gymeriadau.

## Craidd

### Sbardun 3 – Llythyr o Awstralia

Roleystone,  
Perth,  
Gorllewin Awstralia

12 Chwefror 2011

Annwyl Twm a'r teulu,

Mae'r wythnos hon wedi bod yn ofnadwy ... sut mae dechrau adrodd yr hanes? Dydyn ni ddim wedi cael glaw ers sawl mis, felly mae'r tir yn sych grimp. Ar ben hynny, mae gwynt poeth fel sychwr gwallt wedi bod yn chwipio drwy'r strydoedd.

Wythnos diwethaf, roedden ni'n gwyllo'r teledu pan ddaeth bwletin newyddion arbennig. Roedd tân wedi dechrau tua ugain milltir o'n tŷ ni.

Roedd hynny'n bell iawn, felly doedden ni ddim yn poeni gormod. Ond cyn pen dim, cawson ni alwad ffôn. Rhywun o'r cyngor lleol oedd yno a'r cyfan a ddywedodd oedd:

“Rydych chi mewn perygl ac mae'n rhaid i chi adael eich cartref yn syth. Does dim amser i gasglu unrhyw eiddo. Peidiwch ag oedi. Ewch ar frys.”

Edrychon ni i gyd ar ein gilydd ac allan drwy'r ffenest. Roedden ni'n gallu gweld y fflamau ar y gorwel, arogl pren yn llosgi a chlywed sŵn hofrennydd uwch ein pennau. Yna, gwelon ni ddŵr yn cael ei ollwng o'r hofrennydd ar y bryn y tu ôl i'r tŷ. Doedd dim amser i'w golli. Rhedon ni i gyd i'r car nerth ein traed.



Dwi erioed wedi gweld Dad yn gyrru mor gyflym. Roedd e'n mynd fel cath i gythraul! Ond roedd y fflamau fel petaen nhw'n dod yn nes ac yn nes. Roeddwn i'n edrych yn ôl o hyd, yn barod i weld y fflamau'n dod yn donnau mawr droston ni.

O'r diwedd, cyrhaeddon ni afon Canning a chroesi'r bont. Erbyn hynny, roedd y fflamau fel petaen nhw wedi newid cyfeiriad. Diolch byth! Roedden ni'n dal yn fyw! Aethon ni i'r ganolfan hamdden lle roedd pawb o'r ardal wedi ymgasglu.

Chawson ni ddim mynd adref am rai dyddiau. Gwnaeth pawb ei orau i esgus ein bod ni ar wyliau gweryslla, ond doedd dim yn tycio. Roedden ni ar bigau'r drain: a fyddai'r tân wedi llosgi ein tŷ ni?

Pan gawson ni fynd adref yn y pen draw, roedd golygfa erchyll yn ein hwynebu. Roedd y tŷ, a phopeth ynddo, wedi llosgi'n ulw. Mae pawb wedi bod yn eu dagrau ers hynny. Rydyn ni wedi bod yn aros gyda ffrindiau, ond dydyn ni ddim yn siŵr faint o amser mae hi'n mynd i'w gymryd i ailgodi'r tŷ. Mae'r cyfan yn hunllef.

Alla i ddim ysgrifennu rhagor, dwi'n teimlo mor benisel. Meddylia amdanom ni yma yn Awstralia.

Cofion  
Jack

## Estynnol

### Sbardun 1 – Gwybodaeth am atal tân

#### Cartrefi diogel

Rydyn ni'n hoffi meddwl bod ein cartrefi ni'n ddiogel rhag tân, ond tybed ydy hynny'n wir? Mae llawer o bethau y gall pawb eu gwneud fel nad oes tân yn digwydd yn y lle cyntaf:

#### Canhwyllau

- Byddwch yn ofalus gyda chanhwyllau. Dylai pob canhwyll fod mewn canhwyllbren fel nad ydyn nhw'n cwmpo. Cadwch nhw draw o'r llenni neu glustogau.
- Peidiwch â gadael plant bach yn y gegin ar eu pennau eu hunain.

#### Olew, plygiau a sigarêts

Pan fyddwch chi'n defnyddio olew poeth i goginio, byddwch yn ofalus iawn. Mae'n gallu mynd ar dân yn hawdd.

- Peidiwch â rhoi gormod o blygiau mewn socedi trydanol – cadwch un plwg i bob soced.
- Os oes rhywun yn ysmegu yn eich tŷ chi, dywedwch wrthyn nhw am ddiffodd sigarêts yn llwyr. Gallen nhw fynd ar dân mewn bin os nad ydyn nhw wedi'u diffodd yn iawn.

#### Os bydd tân yn digwydd...



... mae llawer o bethau i'ch cadw chi'n ddiogel:

- Rhowch larymau mwg ar bob lefel yn eich cartref.
- Gwnewch yn siŵr bod y batris yn eich larwm mwg yn gweithio bob wythnos a newidiwch nhw bob blwyddyn. Peidiwch byth â'u tynnu o'r larwm oherwydd bod eisiau batris ar rywbeth arall.
- Sut byddech chi'n dianc petai tân yn digwydd? Paratowch lwybr dianc.
- Peidiwch â cheisio diffodd tân eich hun: gadewch hynny i'r ymladdwyr tân - ewch allan, arhoswch allan a ffoniwch 999.

## Estynnol

### Sbardun 2 – Penyberth

Yn 1935, roedd y Weinyddiaeth Awyr eisiau sefydlu gorsaf i hyfforddi peilotiaid awyrennau bomio ar safle hen ffermdy Penyberth ym Mhenrhyn Llŷn. Ar y pryd, roedd pobl yn ofni y byddai rhyfel yn digwydd yn erbyn yr Almaen. Roedd llawer o bobl yn gwrthwynebu hyn yn chwynn oherwydd eu bod nhw'n heddychwyr. Roedden nhw'n ofni y byddai'r 'ysgol fomio' yn newid cymeriad ardal Llŷn a oedd yn ardal wledig, Gymraeg a Christnogol. Gofynnnon nhw am gyfarfod â'r llywodraeth i drafod hyn, ond gwrthododd y llywodraeth.

Ar 8 Medi 1936, aeth Saunders Lewis, Lewis Valentine a D.J. Williams i chwistrellu petrol yn rhai o'r cytiau oedd wedi cael eu codi ar y safle, a chynnau tân. Roedden nhw'n aelodau o Blaid Cymru (Saunders Lewis oedd ei llywydd). Yn syth ar ôl i'r tân gydio, aethon nhw i orsaf heddlu Pwllheli i gyfaddef mai nhw wnaeth.

Cafodd y tri eu profi mewn llys yng Nghaernarfon, ond gan fod y rheithgor wedi methu dod i benderfyniad, aeth yr achos i'r Old Bailey yn Llundain. Cafodd y tri ddedfryd o naw mis o garchar. Collodd Saunders Lewis ei swydd fel darlithydd yn y Brifysgol yn Abertawe. Pan gafodd y tri eu rhyddhau o garchar, daeth 12,000 o bobl i'w croesawu nhw ym Mhafiliwn Caernarfon ym mis Medi 1937.



## Estynnol

### Sbardun 3 – Llew mewn caethiwed

Mwng o dafodau tanllyd  
sy'n goleuo'r sw ar ddiwrnod o haf.  
Ond does dim gwreichion yn ei lygaid pŵl.

Treuliodd flynyddoedd yn crwydro'n ddiamcan,  
yn fflam ar ddisberod.  
Nawr, nid yw'n ysu am ddim.

Llosgodd ei enaid yn ulw.  
Diffoddodd ei ysbryd.  
Gorwedd yn farwydos oer ar ludw'r pridd.

#### Defnyddio delweddau

Mae hi'n bosib mynegi teimladau neu ddisgrifio rhywbeth mewn cerdd gan ddefnyddio delwedd tân. Mae'r enghraifft yn disgrifio llew mewn sŵ.





## Heriol

### Sbardun 1 – Ystadegau Tân

**Ble mae tanau'n dechrau mewn tai:**

Lleoliad	%
Y gegin	60
Y lolfa neu'r ystafell fwyta	13
Yr ystafell wely	7
Mannau eraill yn y tŷ	8
Cyfanswm yn y tŷ	89
Cyfanswm y tu allan i'r tŷ 11 (e.e. tân gwyllt, barbiciw, tanllwyth o dân)	

**Rhesymau pam nad yw larymau mwg yn gweithio**



**Achosion tanau**

Achos	%
Damweiniau wrth goginio	53
Offer trydanol	11
Llosgi bwriadol	7
Canhwyllau	7
Ysmygu a matsis	5
Offer gwresogi a thanau domestig	5
Plant yn chwarae â tân (nid matsis)	2
Achosion eraill	

## Achosion tanau mewn ceginau



## Heriol

### Sbardun 2 – Tân yn Llŷn

Dyma gân 'Tân yn Llŷn' gan y grŵp 'Plethyn'.

Cytgan:

Beth am gynnau tân fel y tân yn Llŷn?  
Beth am gynnau tân fel y tân yn Llŷn?  
Tân yn ein calon a thân yn ein gwaith,  
Tân yn ein crefydd a thân dros ein hiaith.  
Tân, tân, tân, tân.  
Beth am gynnau tân fel y tân yn Llŷn?

Pennill 1:

D.J., Saunders a Valentine,  
Dyna i chwi dân a gynheuwyd gan y rhain,  
Tân yn y gogledd yn ymestyn lawr i'r de,  
Tân oedd yn gyffro trwy bob lle.

Cytgan

Pennill 2:

Gwlad yn wenfflam o'r ffin i'r môr.  
Gobaith yn ei phrotest a rhyddid i ni'n stôr.  
Calonnau'n eirias i unioni'r cam  
A'r gwreichion yn Llŷn wedi ennyn y fflam.

Cytgan

Pennill 3:

Ble mae'r tân a gynheuwyd gynt,  
Ddiffoddwyd gan y glaw a chwalwyd gan y gwynt?  
Ai yn ofer yr aberth, ai yn ofer y ffydd  
Y cawsai'r fflam ei hail-ennyn rhyw ddydd?

Cytgan

(Hawlfraint: Sain)

## Heriol

### Sbardun 3 – Hanes Vesuvius

Llosgfynydd yn yr Eidal yw Mynydd Vesuvius. Echdorodd ar 24 Awst 79 O.C., gan orchuddio trefi Pompeii, Stabiae a Herculaneum a miloedd o'r bobl oedd yn byw yno. Cafodd Pompeii ei chladdu o dan 10 troedfedd o fwd a lludw, a diflannodd Herculaneum o dan 75 troedfedd o ludw.

Cyn echdoriad 79 O.C. yr oedd nifer o ddaeargrynfeydd wedi bod, ond roedd pawb yn hen gyfarwydd â nhw yn yr ardal. Serch hynny, yn 79 O.C., sychodd y ffynhonnau, aeth y môr yn dymhestlog a dechreuodd anifeiliaid aflonyddu.

#### Llythyr Pliny'r Ieuengaf

Mae tystiolaeth uniongyrchol am yr echdoriad yn un o lythyrau Lladin Pliny'r Ieuengaf (tua 61 O.C. i tua 112 O.C.). Dyma'r dystiolaeth hynaf sydd gennym am losgfynydd yn echdorri.

Yn ôl Pliny, roedd yr echdoriad yn edrych fel pinwydden yn yr awyr, ac roedd mwg gwenwynig, llwch, llaid, cerrig a fflamau'n tasgu o'r mynydd. Roedd Pliny tua deunaw milltir i ffwrdd pan welodd hyn.



Johan Christian Clausen Dahl (1788-1856): Vesuvius yn echdorri (1826).

Cafodd ewythr Pliny'r Ieuengaf ei ladd yn yr echdoriad. Pliny'r Hynaf oedd ei enw ac roedd yn gyfrifol am longau rhyfel yr ardal. Pan sylweddolodd fod pobl mewn perygl, aeth â fflyd o longau i'w hachub. Dywed Pliny'r Ieuengaf yn ei lythyr:

"Roedd mor agos at y mynydd fel bod y marwor . . . yn syrthio i mewn i'r llongau, gyda cherrig pwms a darnau du o greigiau ar dân. Roedden nhw mewn perygl gan fod y môr yn cilio'n ôl, ac roedd creigiau mawr yn rholio i lawr o'r mynydd, ac yn llenwi'r traeth."

Wedi hyn, glaniodd ei ewythr a mynd i fila ffrind, lle cafodd ymolchi a phryd o fwyd. Roedd fflamau mawr yn dal i dasgu o Fynydd Vesuvius. Aeth pawb yn y fila i gysgu am dipyn, ond bu'n rhaid iddyn nhw adael oherwydd bod y cwrt y tu allan yn llenwi â cherrig a lludw. Dyma ddarn arall o lythyr Pliny'r Ieuengaf:



Joseph Wright of Derby -  
Vesuvius o Portici

"Rhedodd pawb allan i'r caeau, a chlustogau dros eu pennau i'w hamddiffyn rhag y storm o gerrig oedd yn syrthio o'u cwmpas. Roedd hi'n ddydd ym mhobman arall, ond roedd y tywyllwch yn ddyfnach na'r nos dywyllaf, er bod fflaglau a goleuadau eraill fan hyn a fan draw.

"Penderfynon nhw fynd i lawr i'r traeth i weld a oedd hi'n ddiogel iddyn nhw hwylio'r llongau ar y môr, ond roedd y tonnau'n dal yn uchel ac yn dymhestlog. Yno, gorweddodd fy ewythr ar ddarn o hwyl, a galw am ddŵr oer. Yfodd y dŵr, ac yn syth bu'n rhaid iddo godi oherwydd bod fflamau wedi dod . . ac arogl sylffwr cryf cyn hynny. Cafodd help dau o'i weision i godi, ac yn syth, cwmpodd yn farw oherwydd rhyw anwedd gwenwynig . . .

"Ar ôl iddi oleuo eto, sef y trydydd diwrnod ar ôl y digwyddiad trist hwn, daeth ei gorff i'r golwg yn gyfan, heb unrhyw ôl niwed arno, yn y wisg oedd amdano pan gwmpodd. Roedd yn edrych yn debycach i ddyn oedd yn cysgu na dyn marw . . ."

### **Pam mae Mynydd Vesuvius yn bwysig?**

Cadwodd y lludw folcanig a orchuddiodd Pompeii a Herculaneum bopeth rhag yr elfennau. Felly, pan aeth archeolegwyr ati i gloddio, roedd popeth yn union fel roedd ar 24 Awst 79 O.C. Mae modd crwydro o gwmpas Pompeii fel roedd y trigolion yn ei wneud y diwrnod hwnnw.



Yr ardal o gwmpas Vesuvius

Ers 79 O.C.

Echdorrodd Mynydd Vesuvius unwaith bob canrif o 79 O.C. tan ganol yr 11eg ganrif. Wedyn, bu'r mynydd yn ddistaw am ryw 600 mlynedd. Yn y cyfamser, tyfodd poblogaeth yr ardal, a chafodd tua 4,000 o bobl eu lladd yn echdoriad 1631. Heddiw, mae tair miliwn o bobl yn byw yn ardal Mynydd Vesuvius, felly gallai trychineb enfawr ddigwydd petai'n echdorri eto.



Olion cyrff

Wrth gloddio yn Pompeii, bydd tyllau'n ymddangos yn y llaid caled. Olion cyrff sydd wedi dadelfennu ydy'r rhain ar ôl i'r llwch a'r llaid galedu. Ers talwm, roedd cloddwyr yn arfer arllwys concriid i'r tyllau ac yn palu o'u cwmpas nhw i dynnu cast plastr o'r corff allan. Heddiw mae archeolegwyr yn defnyddio polymer clir.